Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Glanrafon**
**Lon Bryn Coch**
**Yr Wyddgrug**
**Sir Y Fflint**
**CH7 1PS**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Glanrafon

Lleolir Ysgol Glanrafon ar gyrion tref Yr Wyddgrug. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 331 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 36 oed meithrin rhan-amser. Trefnir y disgyblion yn 12 dosbarth oed cymysg. Mae naw disgybl amser llawn o gyfnod allweddol 2 ysgolion Cymraeg yr awdurdod leol yn yr adnawdd anghenion dysgu ychwanegol.

Tua 6% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol (19%). Mae lleiafrif y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 16% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n llai na'r canran genedlaethol (21%). Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 1997 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn Ysgol Glanrafon yn cyflawni'n dda, yn enwedig yn eu medrau cyfathrebu. Mae ymddygiad ac agweddau disgyblion tuag at ddysgu yn gadarn ac maent yn barod iawn i gefnogi dysgu ei gilydd. Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol ac mae disgyblion yn dangos lefel uchel o barch a goddefgarwch at eraill. Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol gan amlaf yn dda ac yn deillio o berthynas waith lwyddiannus rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu. Rhoddir ffocws clir ar ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol ar draws yr ysgol er mwyn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol. Mae arweinwyr yn rhannu gweledigaeth bwrpasol ar gyfer yr ysgol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o brosesau hunanarfarnu yn effeithiol er mwyn adnabod blaenoriaethau gwella synhwyrol a sicrhau gwelliant.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i herio'r disgyblion mwy abl yn effeithiol

A2 Gwella medrau thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu y disgyblion

A3 Sicrhau bod adborth athrawon yn galluogi disgyblion i wybod yn union beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu medrau

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol ac yn llwyddo'n dda erbyn Blwyddyn 6. Mae rhan fwyaf y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn tuag at eu targedau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n mynychu'r dosbarth adnawdd yn gwneud cynnydd da dros gyfnod yn unol â'u hangenion a'u galluoedd. Gwnânt gynnydd cadarn o ran cyflawni eu targedau llythrennedd a rhifedd.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ddisgyblion eraill, ac maent yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus. Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn sgwrsio'n bwrpasol gyda'i gilydd, er enghraifft yn ystod chwarae rôl y cymeriad Brigddyn a'i deulu. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn sgwrsio'n rhugl yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn rhannu eu syniadau ac yn datgan eu barn yn hyderus wrth drafod cyfleusterau ac amodau gwaith plant yn ystod Oes Fictoria. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn ei defnyddio'n naturiol wrth sgwrsio gyda'i gilydd.

Mae llawer o'r disgyblion yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd da bob blwyddyn. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig yn hyderus i adeiladu geiriau anghyfarwydd pan fo angen. Mae llawer o ddisgyblion mwy abl yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed, gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol neu eu hoff gymeriad. Maent yn dangos hoffter tuag at eu hoff awduron a chyfresi. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn llithr ddarllen am wybodaeth yn fedrus i gywain gwybodaeth o wahanol destunau, gan gynnwys y we, wrth greu adroddiad ar gysawd yr haul, er enghraifft.

Yn gynnar iawn, mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ffurfio llythrennau'n gywir ac yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau yn gymwys, er enghraifft wrth ysgrifennu rhestr o greaduriaid bach sydd yng ngwesty'r trychfilod. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu'n hyderus ac yn amrywio brawddegau'n synhwyrol i greu effaith yn eu gwaith. Maent yn defnyddio eu dychymyg yn greadigol wrth ddisgrifio beth maent yn gweld wrth fynd ar daith hela'r arth ac yn creu taflen ffeithiol gywir am y Fam Teresa. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eu gwaith yn ddiddorol ar draws ystod eang o ffurfiau ysgrifennu. Maent yn defnyddio cwestiynau rhethregol i ddwyn perswâd, er enghraifft wrth ysgrifennu dadl o blaid ac yn erbyn adeiladu caffi bwydydd cyflym enwog ar ben yr Wyddfa. Mae ychydig o'r disgyblion mwy abl yn creu awyrgylch ac yn disgrifio lleoliad dychmygus yn greadigol. Mae mwyafrif y disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn raenus.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi mathemateg yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn trin arian yn gywir, ac yn adnabod priodweddau siapiau yn hyderus. Maent yn datblygu dealltwriaeth dda o amser a phwyso.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi mathemateg yn gadarn. Mae gan lawer ddealltwriaeth gref o luosi a gwerth lle a gallant ddefnyddio data yn gynyddol gywir wrth gymharu hinsawdd fynyddig Capel Curig a mynydd yr Himalayas. Wrth weithredu arbrofion gwyddonol, maent yn mesur effaith priodweddau ynysu defnyddiau gwahanol yn gywir ac yn arddangos ar ffurf graff bloc effaith ffrithiant ar bellter mae car yn teithio. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion ar draws yr ysgol yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd boddhaol yn eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn trin offer TGCh yn effeithiol, er enghraifft wrth recordio perfformiad yn yr ardal tu allan ar lechen electronig neu gamera. Maent yn defnyddio pecynnau celf yn fedrus wrth dynnu lluniau o wrthrychau byd natur. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r we yn llwyddiannus i ymchwilio ac i greu cyflwyniadau amlgyfrwng pwrpasol. Maent yn medru rhoi cyfarwyddiadau i greu llun symudol. Fodd bynnag, erbyn Blwyddyn 6, prin yw medrau'r disgyblion i greu taenlen ac i archwilio bas data.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron bob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi mewn achos o bryder. Maent yn hyderus fod yr ysgol yn ymateb i unrhyw bryder sydd ganddynt yn brydlon. Mae gan ddisgyblion ar draws yr ysgol ddealltwriaeth gadarn o sut i fyw'n iach ac maent yn gwneud dewisiadau iach mewn perthynas â bwyd a gweithgarwch corfforol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymfalchïo yn yr amrywiaeth eang o weithgarwch corfforol mae'r ysgol yn ei gynnig ac maent yn ymrwymo'n frwdfrydig i weithgareddau fel ioga, jiwdo a rygbi. Mae'r gweithgareddau rhedeg milltir y dydd ac ymgymryd â sesiynau ffitrwydd pum munud yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion tuag at fyw bywyd iach. Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion ymwybyddiaeth fuddiol o sut i gadw'n ddiogel ar y we. Gall y disgyblion hyn drafod pwysigrwydd peidio â datgelu eu hunaniaeth ar lein ac i gadw manylion cyswllt yn gyfrinachol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn falch iawn o'r cyfleoedd i ddatblygu eu medrau arwain. Er enghraifft, mae brwdfrydedd a balchder y llysgenhadon iaith yn effeithio'n llwyddiannus iawn ar holl ddisgyblion yr ysgol i ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn ystod y dydd. Mae grwpiau o ddisgyblion eraill yn cynrychioli barn y disgyblion yn effeithiol ac yn gwneud penderfyniadau pwrpasol am agweddau o fywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol wedi newid bwydlen amser cinio i gynnig opsiynau iach. Maent hefyd yn weithredol yn cefnogi amrywiaeth o elusennau, gan gynnwys banc bwyd lleol ac ymgyrch y ffoaduriaid. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn gyson dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn garedig ac yn ofalgar o'i gilydd. Mae hyn yn amlwg yn ystod amseroedd cinio ble mae cyfeillion Blwyddyn 6 yn gofalu am ddisgyblion y cyfnod sylfaen drwy eu helpu gyda'u bwyd a chwarae gemau gyda nhw. Mae bron bob disgybl yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda pharch a chwrteisi. Maent yn dangos mwynhad at eu dysgu ac yn barod iawn i drafod eu gwaith a'u llwyddiannau gydag ymwelwyr.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig wrth gwblhau eu gweithgareddau. Maent yn cydweithio'n

effeithiol â'u cyfoedion mewn grwpiau ac mewn parau ac yn dangos parch at farn eraill. Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o drefniadaeth dosbarth o oedran cynnar iawn ac maent yn symud rhwng yr ardaloedd amrywiol yn hyderus. Mae hyn yn eu galluogi i ymroi i'r gwaith yn syth ac i weithio'n bwrpasol. Mae gan lawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen ddealltwriaeth dda o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Mae ganddynt ddylanwad amlwg ar beth y maent yn dymuno ei ddysgu o fewn thema'r tymor wrth gynllunio'r gornel chwarae rôl a'r heriau wythnosol. Nid yw cyfranogiad y disgyblion mor amlwg yng nghyfnod allweddol 2.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol gan amlaf yn dda ac yn deillio o berthynas waith lwyddiannus rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu. Mae hyn yn arwain at gydweithio effeithiol a datblygu brwdfrydedd y disgyblion tuag at eu dysgu.

Mae bron pob aelod o staff yn fodelau iaith cadarn ac yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion hŷn fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd niferus er mwyn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u treftadaeth a diwylliant Cymru. Mae'r ysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn llwyddiannus gydag ymweliadau preswyl, er enghraifft i Gaerdydd ac i Lan Llyn, a hefyd nifer o ymwelwyr i'r ysgol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith effeithiol sy'n sicrhau cysondeb a phrofiadau pwrpasol ar draws yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn defnyddio arddulliau addysgu effeithiol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion i gyd. Maent yn cyflwyno amcanion dysgu clir i'r disgyblion a chaiff y rhain eu rhannu'n rheolaidd i sicrhau pwrpas i'r dysgu. Mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn adnabod eu disgyblion yn dda. Gwelir enghreifftiau cryf o deilwra gweithgareddau dosbarth i fodloni anghenion disgyblion o bob gallu yn y gwersi mathemateg a gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn herio y disgyblion mwyaf abl yn ddigon rheolaidd.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae'r ysgol yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio'r ardaloedd allanol sy'n ymestyn y dysgu'n llwyddiannus. Er enghraifft, i atgyfnerthu medrau iaith, mae'r disgyblion yn defnyddio adnoddau naturiol sydd ar gael yn yr awyr agored i greu stori. Mae nifer o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu drwy chwarae a thrwy brofiadau byw wrth iddynt ddarganfod wrthrychau sy'n suddo ac arnofio. Mae'r athrawon i gyd yn darparu gweithgareddau ffocws a pharhaus diddorol sy'n cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio, chwarae rôl, adeiladu ac ymarfer eu medrau corfforol. Mae hyn yn meithrin disgyblion sydd ag agweddau positif tuag at ddysgu ac sy'n datblygu'n ddysgwyr annibynnol yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i alluogi disgyblion i ddatrys problemau ac i ddatblygu eu medrau meddwl. Maent yn dechrau ymateb i syniadau a diddordebau disgyblion yn bwrpasol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd disgyblion o fewn sesiynau iaith a mathemateg. Mae cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd drwy themâu fel Cerdyn Post a'r Gofod. Yn diweddar, ceir

esiamplau priodol o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau rhif wrth ddidoli teganau plant cyfoethog a thlawd ar ddiagram Venn. Er hyn, nid yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh disgyblion wedi datblygu'n ddigon rheolaidd er mwyn iddynt eu defnyddio'n hyderus mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae'r athrawon yn creu meini prawf llwyddiant yn effeithiol er mwyn gwerthuso i ba raddau mae disgyblion wedi llwyddo i wneud cynnydd yn ystod y gwersi. Mae'r mwyafrif yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion werthuso eu gwaith yn iaith a mathemateg ac yn ddiweddar annog y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i osod targedau addas ar gyfer gwella. Ceir cyfleoedd rheolaidd yn y cyfnod sylfaen i'r disgyblion osod eu targedau eu hunain ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Yn dilyn adborth llafar effeithiol, rhoddir cyfleoedd aml i'r disgyblion wella eu gwaith, ond nid yw'r adborth ysgrifenedig bob tro'n cynnig sylwadau digon penodol ar yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella cynnwys a chyflwyniad y gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion o'u mannau cychwyn. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol o ran llythrennedd, rhifedd a lles yn arbennig. O ganlyniad, maent yn darparu rhaglenni ymyrraeth buddiol er mwyn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae cynlluniau dysgu unigol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol yn briodol. Mewn ychydig esiamplau, nid yw'r targedau bob amser yn ddigon penodol i arwain athrawon i wahaniaethu gweithgareddau yn ddigon manwl i fodloni anghenion y disgyblion ar draws y pynciau. Defnyddir cymorthyddion dysgu yn llwyddiannus ar draws yr ysgol i gefnogi disgyblion unigol yn eu dysgu ac i weithredu ystod o raglenni ymyrraeth. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion sy'n mynychu'r dosbarth adnawdd yn creu awyrgylch hapus, gofalgar a chynhwysol sy'n rhoi pwyslais cadarn ar les y disgyblion. Mae'r gefnogaeth yn cynorthwyo'r disgyblion i ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn cyfrannu'n effeithiol at wella safonau a deilliannau'r disgyblion hyn. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais pwrpasol ar ddatblygu anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion i gyd.

Mae gan yr ysgol berthynas waith gadarn gydag ystod o asiantaethau eraill er mwyn cefnogi disgyblion ac i estyn cymorth ac arweiniad i staff. Enghraifft dda yw'r berthynas fuddiol gyda staff arbenigol iaith a lleferydd er mwyn darparu cefnogaeth i'r disgyblion a'r staff. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n effeithiol â rhieni er mwyn iddynt gefnogi dysgu eu plant yn briodol. Er enghraifft, maent yn cynnig syniadau i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd a gwybodaeth berthnasol am waith yr ysgol ar raglen cyfrwng cymdeithasol. Mae'r ysgol hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ddefnyddiol i rieni disgyblion Blwyddyn 2 yn nhymor yr haf sy'n hwyluso'r broses o drosglwyddo i gyfnod newydd.

Mae ffocws clir ar ddatblygu addysg bersonol a chymdeithasol ar draws yr ysgol. Drwy nifer o glybiau allgyrsiol a'r wythnos iechyd a gofal, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i ddysgu am bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini a sut i gadw'n ddiogel ar y we. Mae'r ysgol yn hybu parch a goddefgarwch yn effeithiol wrth gynnig cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio am agweddau ysbrydol a moesol. Caiff hyn ei

atgyfnerthu'n llwyddiannus drwy gyswllt yr ysgol â nifer o ysgolion ar draws y byd i rannu a derbyn addurniadau Nadolig a'u gweithgareddau elusennol. Yn ychwanegol, mae'r athrawon yn rhannu trychinebau dynol neu naturiol cyfredol mewn gwersi sy'n cryfhau dealltwriaeth ac yn meithrin parch y disgyblion tuag at ddiwylliannau a chredoau eraill. Maent yn eu hannog i dyfu'n ddinasyddion effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn effeithiol. Mae traddodiad cryf o gyfleoedd niferus i ddisgyblion berfformio mewn cyngherddau, gwasanaethau eglwysig ac eisteddfodau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder llawer o ddisgyblion yn ogystal â'u hymwybyddiaeth o'u hetifeddiaeth Gymreig. Gwneir defnydd gwerthfawr o ymwelwyr i ehangu profiadau diwylliannol y disgyblion, er enghraifft wrth iddynt ddysgu am emynau a cherddoriaeth y Plygain yn yr ardal leol.

Mae'r trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn sy'n seiliedig ar safonau da a lles disgyblion. Mae arweinwyr yn cyfleu'r weledigaeth yn glir er mwyn creu ethos Cymreig, gofalgar a chynhwysol llwyddiannus. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli yn ei chefnogi'n bwrpasol i wireddu blaenoriaethau'r ysgol. Maent hefyd yn arwain gwahanol adrannau o fewn yr ysgol yn gadarn sy'n meithrin gwaith tîm effeithiol. Mae gan bob aelod o staff gyfrifoldeb am agwedd benodol ar waith yr ysgol, sy'n cyfrannu'n dda at gynnal safonau pwrpasol o ran lles a chyflawniad disgyblion.

Yn gyffredinol, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella yn yr ysgol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o brosesau hunanarfarnu eang, fel craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi a dadansoddi data, er mwyn adnabod blaenoriaethau gwella. Mae'r athrawon yn cael cyfleoedd rheolaidd i rannu arfer dda, i werthuso strategaethau addysgu ac i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, mae arweinwyr yn cynllunio hyfforddiant penodol er mwyn cryfhau agweddau o addysgu. Enghraifft dda o hyn yw'r hyfforddiant ysgol gyfan ar gyfer gwella medrau TGCh disgyblion a staff. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur eu heffaith ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion.

Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu wedi'u seilio'n uniongyrchol ar ddeilliannau'r weithdrefn hunanarfarnu ac yn canolbwyntio'n gadarn ar gynnal a chodi safonau. Mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn bwrpasol ac yn cyflwyno adolygiad buddiol mewn perthynas â blaenoriaethau'r cynllun blaenorol yn briodol. Yn gyffredinol, mae'n arf pwrpasol i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Er enghraifft, mae'r gwaith ar wella ysgrifennu estynedig wedi cael effaith gadarnhaol ar allu disgyblion i ysgrifennu'n bwrpasol mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifennu. Hefyd, mae'r profiadau a gynigir i ddisgyblion i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol yn elfen gref o'r cyfnod sylfaen.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn, yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Maent yn ddiweddar yn ffocysu'n fanwl ar ddata, safonau, hunanarfarnu a datblygiad ysgol sydd wedi cryfhau eu dealltwriaeth o gryfderau a diffygion yr ysgol yn llwyddiannus. Maent yn gweithredu'n dda fel

cyfeillion beirniadol. Mae'r ysgol wedi dechrau ymateb i her yr is-bwyllgor cwricwlwm am ddeilliannau darllen y disgyblion i gyd drwy olrhain cynnydd darllen y disgyblion yn fwy manwl ac addasu'r ddarpariaeth ar gyfer grwpiau penodol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn bwrpasol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu medrau llythrennedd y disgyblion yn llwyddiannus ar draws pob maes dysgu a sefydlu'r Siarter Iaith i godi safonau llafar y disgyblion. Mae'r ysgol yn dechrau paratoi i wireddu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol athrawon a chymorthyddion. Mae'r hyfforddiant penodol, a'r cydweithio agos ag ysgolion cyfagos i godi safonau disgyblion ac i addasu'r ddarpariaeth ar gyfer mathemateg ar draws yr ysgol, yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r athrawon yn datblygu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion y cyfnod sylfaen gynllunio heriau'r dydd.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwna ddefnydd effeithiol o fedrau unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Er enghraifft, defnyddir arbenigedd staff yn fedrus i addysgu pynciau fel addysg grefyddol a cherdd. Gwnânt ddefnydd gwerthfawr o adnoddau dysgu i gyfoethogi'r cwricwlwm. Dros amser, mae'r ysgol wedi gwella'r ardal tu allan ac mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol er mwyn gwella medrau disgyblion wrth weithio yn yr awyr agored. Mae'r pennaeth yn defnyddio elw ariannol o baneli solar yr ysgol i ychwanegu at adnoddau TGCh yr ysgol.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n dda â'r cynlluniau ar gyfer gwelliant. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r grant datblygu disgyblion i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion bregus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/02/2018